newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice Llais Sir Gâr

Mae Panel Dinasyddion Sir Gâr bellach yn ei bumed flwyddyn ac yn ystod yr amser hwnnw cafodd ei ddefnyddio i ganfod eich barn ar dros 90 o bynciau, yn amrywio o Wyliau/Digwyddiadau yn y Sir i wasanaeth Meddygon Teulu y tu allan i oriau swyddfa, Hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys a'r Gwasanaeth Clinig Babanod Iach.

Mae rôl aelodau'r panel yn un bwysig. Rydych wedi rhoi barn Sir-gyfan i ni ar faterion ac o ganlyniad i'ch sylwadau rydym wedi gallu gweithredu llawer o'r pethau sydd bwysicaf i chi.

Gobeithiaf fod y rheiny ohonoch sydd â phrofiad 'hen law' o'r panel yn teimlo bod eich cyfraniadau wedi bod yn fuddiol a'n bod ni wedi gwrando arnoch chi.

Hoffwn ddiolch i aelodau mwyaf newydd ein panel am ymuno â'r gr?p arbennig ond cynrychioliadol hwn o bobl, a gobeithio y byddwch yn teimlo bod eich aelodaeth o'r panel yn brofiad gwerthfawr."

ER GWYBODAETH:

Mae Panel Dinasyddion Sir Gâr yn bodoli ers 5 mlynedd. Yn ystod yr amser hwnnw:

- Mae mwy na 10,437 o ffurflenni holiaduron wedi eu dychwelyd
- Mae'r Panel wedi ateb mwy na 750 o gwestiynau

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at arolwg diwethaf Llais Sir Gâr. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser ac mae'r ymatebion yr ydym wedi'u derbyn yn ei wneud yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i nodi ein diolch, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn cystadleuaeth. Dewiswyd enillydd ar hap o Arolwg 15 ac mae ein henillydd, o ardal y Dryslwyn, bellach â £50 ychwanegol yn ei boced! Llongyfarchiadau hefyd i'n henillydd o Arolwg 14 o ardal Porth Tywyn a enillodd £50 hefyd yn ein cystadleuaeth.

Sicrhewch eich bod yn cwblhau Arolwg 16 (amgaeedig) i'w osod yn y gystadleuaeth nesaf.

PANEL DDINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

RHIFYN 14 – Ebrill 2006

CYLLIDEB CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2006 / 2007

Dyma'r trydydd tro i aelodau ein Panel gael lleisio'u barn ynghylch cyfeiriad y Cyngor o safbwynt datblygu ei wasanaethau. Roedd yr Ymgynghori gydag aelodau'r Panel ynghylch cyllideb 2006 / 2007 yn un rhan o ymgynghoriad ehangach yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, y sector gwirfoddol a'r gymuned fusnes.

Gofynnwyd i chi ddewis o restr o wasanaethau'r cyngor y pedwar gwasanaeth y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt a'r pedwar gwasanaeth y dylid rhoi'r flaenoriaeth isaf iddynt o safbwynt gwariant ychwanegol, petai mwy o arian yn dod ar gael. Nodir y canlyniadau gyferbyn ac maent yn gyson yn fras â chanlyniadau y llynedd:

Blaenoriaethau Uchaf:

1) Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol
2) Ysgolion cynradd ac uwchradd
3) Gwasanaethau a chyfleusterau I bobl sâl ac anabl
4) Darparu cyfleoedd gyrfaol

Blaenoriaethau Isaf:

1) Gwyliau a digwyddiadau
2) Gwasanaethau cynllunio
3) Mentrau datblygu cymunedol
4) Theatrau, canolfannau diwylliannol, amgueddfeydd etc.

GWEITHREDU

Roedd yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r Panel Dinasyddion ynghylch y gyllideb yn rhan o ymgynghoriad ehangach a wnaeth gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Fforymau Ysgolion a Threthdalwyr Diwydiannol a Masnachol. Rhoddodd y Cynghorwyr ystyriaeth i safbwyntiau'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy ac i'r materion a godwyd, cyn bwrw ati i wneud penderfyniadau terfynol ar gyfanswm y gwariant ac ar y modd y dylid ei rannu rhwng gwahanol wasanaethau'r Cyngor.

Bu i'r Cyngor gymeradwyo'r gyllideb yn ei gyfarfod ar 28ain Chwefror 2006

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN – STRATEGAETH DDIGWYDDIADAU

Gofynnwyd i aelodau'r Panel os oedden nhw wedi mynychu unrhyw rai o'r digwyddiadau Sir Gâr a restrwyd. Y digwyddiadau mwyaf poblogaidd a fynychwyd gan aelodau'r Panel oedd:

- Pabell CSC yn y Sioe Frenhinol
- Gŵyl Gerddoriaeth a Blodau Llandeilo
- Gŵyl Swyn a Sbri Myrddin
- Twrnamaint Golff Pencampwriaeth Ewrop i Fenywod

Gofynnwyd i chi hefyd am y ddarpariaeth o ddigwyddiadau ar gyfer grwpiau oed penodol.

O'r tabl uchod mae'n glir bod y mwyafrif ohonoch yn teimlo bod 'tua'r swm iawn' yn cael ei anelu at y rheiny rhwng 40-64 oed (42%) a'r rheiny 65 a h?n (37%). Roedd 41% o'r aelodau yn teimlo nad oedd digon wedi'i anelu at y rheiny rhwng 11-17 oed.

	Gormod	Yn iawn	Dim digon	Ddim yn gwybod
Plant o dan 11 oed	2%	36%	24%	**38%**
Plant a phobl ifanc 11-17 oed	1%	24%	**41%**	34%
Oedolion 18-24 oed	2%	30%	29%	**39%**
Oedolion 25-39 oed	2%	39%	19%	**40%**
Oedolion 40-64 oed	1%	**42%**	28%	29%
Oedolion 65 oed a hŷn	1%	**37%**	28%	33%

GWEITHREDU

Darparodd y canlyniadau o'r arolwg ddata gwerthfawr i drefnwyr y digwyddiadau er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio Rhaglen Ddigwyddiadau 2006. Am fwy o wybodaeth, mewngofnodwch i wefan Cyngor Sir Caerfyrddin www.sirgar.gov.uk neu cysylltwch â'r tîm digwyddiadau ar 01554 747519 neu e-bostiwch: hamdden@sirgar.gov.uk

PANEL DDINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

HEDDLU DYFED - POWYS
RHAGLEN DDYSGU A DATBLYGU CYCHWYNNOL I'R HEDDLU (RhDdDCH)

O'r canlyniadau a ddarparwyd gennych, mae amrywiaeth o ddigwyddiadau denu a chynnwys y gymuned wedi cael eu cynnwys o fewn y rhaglen hyfforddi RhDdDCH i swyddogion heddlu dan hyfforddiant, a bydd hynny'n parhau (rhoddir gwybodaeth bellach isod).

Rhannu profiadau/cyfraniad y gymuned

Ar ddau ddiwrnod ar wahân ym mis Ionawr 2006, gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i rannu eu barn a'u profiad gyda swyddogion heddlu dan hyfforddiant am gyflawni gwasanaethau a materion amrywiol mewn perthynas â byw yng nghymdeithas Prydain ag anabledd a hefyd o safbwynt oed; boed yn ifanc neu'n hen. Teimlodd pawb a gymerodd ran fod y digwyddiadau hyn yn rhai positif a bu i'r swyddogion heddlu dan hyfforddiant elwa o wybodaeth amhrisiadwy a phrofiad dysgu.

Gweledegdd - Canolfan Sant Elli, Llanelli

Ym mis Chwefror eleni, ymgymerodd Heddlu Dyfed-Powys â'i weithgaredd chwarae rôl cyntaf yng Nghanolfan Sant Elli yn Llanelli. Roedd y swyddogion heddlu dan hyfforddiant yn gweithio o dan amgylchiadau asesu a reolwyd gan swyddogion hyfforddi ac aseswyr cymwys, a'r ffocws oedd i swyddogion heddlu dan hyfforddiant ymgymryd â sefyllfaoedd chwarae rôl mewn amgylchedd cymunedol gweladwy.

Yn hanesyddol ymgymerwyd â'r math hwn o hyfforddiant mewn canolfannau hyfforddi'r heddlu nad ydynt yn rhan o gymunedau, tra o fewn y RhDdDCH, rhoddir y cyfle i swyddogion heddlu dan hyfforddiant ymwneud â chymunedau a darparu gwasanaeth heddlu gweladwy sy'n tawelu meddwl y cyhoedd wrth ymgymryd â'u dysgu a'u datblygiad.

Mae David Morgan, y swyddog hyfforddi sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd ac ymwneud â'r gymuned/partneriaethau, yn ceisio cymorth ar hyn o bryd gan aelodau cymunedau a chymdogaethau. Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw rai o'r digwyddiadau isod neu os hoffech gael gwybodaeth bellach amdanynt, cysylltwch â David Morgan ar 01267 226507 neu drwy e-bostio: david.morgan@dyfed-powys.pnn.police.uk

- **Gweledegdd** caniatáu i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan mewn chwarae rôl gyda swyddogion heddlu dan hyfforddiant. Byddai'r rhain yn digwydd mewn siopau, lleoliadau busnes neu ar y stryd.
- **Cyfrannu -** caniatáu i aelodau siarad am eu profiadau, a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a sefydliadau partner eraill.
- **Ymwneud -** byddai hyn yn golygu bod swyddogion heddlu dan hyfforddiant yn canolbwyntio ar faterion diogelwch cymunedol, gwaith tawelu meddwl y cyhoedd gan yr heddlu a hefyd ymwneud â'r ardal y byddant yn gofalu amdani, a gallai hyn gynnwys lleoliadau gyda sefydliadau.
- **Cyfranogiad -** byddai hyn yn caniatáu i aelodau'r gymuned gymryd rhan yn rhai agweddau ar hyfforddiant swyddogion heddlu dan hyfforddiant.

BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN – GWASANAETHAU FFERYLLIAETH

Pan ofynnwyd pam yr oeddech yn defnyddio eich fferyllfa leol, y canlyniadau oedd:

- Presgripsiynau (96%),
- Meddyginiaethau dros y cownter (94%),
- Cyngor ar iechyd (60%)
- Gifts (54%).

Yna gofynnwyd i chi a oeddech yn ymwybodol bod modd i chi ddychwelyd tabledi neu feddyginiaethau nad oedd eu hangen neu a oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben i fferyllfa?



Gofynnwyd i'r rheiny a ddywedodd eu bod yn ymwybodol y gallant ddychwelyd tabledi neu feddyginiaethau nad oedd eu hangen neu a oedd wedi mynd heibio i'r dyddiad dod i ben i fferyllfa os oeddent erioed wedi gwneud hynny. Roedd ychydig o dan ddau draean (62%) wedi gwneud hynny.

Pan ofynnwyd, 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw ymgyrch iechyd a hyrwyddwyd yn eich fferyllfa leol yn ystod y 6 mis diwethaf?', dywedodd 80% o'r aelodau nad oeddent yn ymwybodol o ymgyrch iechyd. O'r 20% oedd yn ymwybodol o ymgyrchoedd iechyd, roedd nifer uchaf yr ymatebion yn ymwneud â chlefyd y siwgr a phrofi siwgr gwaed, wedi'u dilyn gan frechiadau ffliw, profi/monitro pwysau gwaed ac ymwybyddiaeth a gwiriadau colesterol.



GWEITHREDU

- **Codi ymwybyddiaeth o'r Ymgyrchoedd Hybu Iechyd. Cynhaliwyd yr ymgyrchoedd canlynol yn ystod 2005/6:**
  - Ymwybyddiaeth o Osteoporosis
  - Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn
  - Holi am Feddyginiaethau
  - Cael Gwared â Meddyginiaethau Diangen
- **Dal ati i ategu'r neges i gleifion ailarchebu oddi wrth eu Meddyg Teulu y meddyginiaethau y mae eu hangen arnynt yn unig..**

GRWPIAU FFOCWS

Ym mis Hydref 2005, cysylltodd Prifysgol Salford â Chydlynwyr y Panel i ofyn am eu cymorth i drefnu 2 grŵp ffocws (trafod) o fewn Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn Llanelli ym mis Tachwedd ac yng Nghaerfyrddin ym mis Rhagfyr, a mynychodd 17 o aelodau'r Panel.

Trafododd y cyfranogwyr eu barn ar faterion fel newid yn yr hinsawdd, dibyniaeth ar danwydd ffosil, datblygu systemau ynni newydd (ac adnewyddadwy) a thechnolegau amgen gan ddefnyddio hydrogen.

Pwrpas y grwpiau ffocws oedd darparu gwybodaeth am agweddau cymdeithasol tuag at Hydrogen, fel rhan o raglen ymchwil fawr iawn ar ynni hydrogen cynaliadwy, a ariannir gan un o gynghorau ymchwil pwysicaf y DU - yr EPSRC (Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol).

Roedd yr ymchwilwyr oedd yn rhedeg y Grwpiau Ffocws yn wyddonwyr cymdeithasol wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Salford. Rydym yn dal i ddisgwyl adborth ganddynt, a chyn gynted ag y byddwn yn ei dderbyn, byddwn yn ei drosglwyddo i gyfranogwyr y Gr?p Ffocws. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r prif ganlyniadau drwy'r cylchlythyr hwn. Yn y cyfamser, hoffem ddweud 'Diolch' i holl aelodau'r Panel a roddodd o'u hamser i gyfranogi yn y grwpiau ffocws - gobeithiwn eich bod wedi mwynhau'r profiad a theimlo ei fod yn un gwerthfawr.

ADBORTH

Parhewch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydlynydd Ymgynghori
Cwsmeriaid a Pholisi
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin

Ffôn : 01267 224469 or
E-bost : consultation@sirgar.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01267 224469.

PANEL DDINASYDDION SIR GAERFYRDDIN